Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Iau Parc Borras**
**Ffordd Parc Borras**
**Wrecsam**
**LL12 7TH**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Iau Parc Borras yn ysgol gymunedol yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae 235 o ddisgyblion saith i un ar ddeg oed ar gofrestr yr ysgol. Bydd bron pob un o'r disgyblion hyn yn trosglwyddo o Ysgol Babanod Parc Borras. Mae naw o ddosbarthiadau prif ffrwd un oedran, a chyfleuster addysgu arbenigol ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw. Mae'r uned i ddisgyblion â nam ar eu clyw yn darparu ar gyfer hyd at ddeg o ddisgyblion o ddalgylch ehangach na'r ysgol brif ffrwd. Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer y gyfran o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 8%. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (21%).

Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 15% o ddisgyblion, sy'n is na chyfartaledd Cymru. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan ychydig o ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir ethnig gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith.

Yn Ebrill 2010 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd ym Medi 2001.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Iau Parc Borras yn 2014-2015 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,378 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Wrecsam yw £9,101 a'r lleiafswm yw £2,820. Mae Ysgol Iau Parc Borras yn safle 37 o'r 60 ysgol gynradd yn Wrecsam o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae bron bod disgybl yn cyflawni'n dda ar ddiwedd y cyfnod allweddol
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau yn dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol, ac maent yn defnyddio'u medrau yn effeithiol i gynorthwyo'u gwaith mewn ystod o bynciau
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion ac yn parchu barnau pobl eraill
- Mae cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel
- Cynigir profiadau dysgu diddorol a pherthnasol i ddisgyblion, ac o ganlyniad, mae agwedd gadarnhaol at ddysgu gan bob disgybl bron
- Mae ansawdd yr addysgu yn dda ac mae athrawon yn sicrhau bod dealltwriaeth glir gan ddisgyblion o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella
- Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal a chymorth sy'n bodloni anghenion unigol disgyblion yn dda ac mae'n cefnogi safonau uchel o ran lles disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae gweledigaeth gadarn gan yr uwch arweinwyr ar gyfer yr ysgol sy'n annog pob disgybl i gyflawni'i botensial llawn
- Mae uwch arweinwyr yn cael cefnogaeth corff llywodraethol effeithiol a staff ymroddedig sy'n gweithio'n agos â'i gilydd
- Ceir gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu'r ysgol sydd wedi'u seilio'n gadarn ar fonitro'r addysgu a'r dysgu, a chaiff data ei ddadansoddi'n drwyadl
- Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o hunanarfarnu i osod targedau clir ar gyfer gwella
- Mae mentrau diweddar yn canolbwyntio ar welliannau mewn ysgrifennu a sicrhau bod bechgyn yn cyflawni gystal â merched wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau
- Mae ystod eang o bartneriaethau sydd wedi'u sefydlu'n gadarn yn cyfrannu'n effeithiol at godi safonau cyflawniad a lles

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn darllen

A2 Codi safonau mewn Cymraeg a datblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd yr ysgol

A3 Gwella perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar lefel 5

A4 Gwella cynlluniau gwella'r ysgol drwy ddefnyddio meini prawf llwyddo mwy penodol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio ar y lefel ddisgwyliedig, ac mae lleiafrif yn gweithio ar lefel uwch. Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da yn unol â'u gallu ac maent yn adeiladu'n dda ar eu medrau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Mae safonau siarad a gwrando yn dda iawn. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr rhugl a hyderus sy'n mynegi'u syniadau yn dda iawn. Maent yn gwrando'n astud mewn gwersi fel bod disgyblion, er enghraifft, yn gallu cofio ystod eang o wybodaeth o wrando ar ddarlleniad am farchnad ym Mrasil.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'u medrau darllen. Bydd y rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn hyderus ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd. Mae dealltwriaeth dda gan bron pob disgybl o sut i ddefnyddio llyfrau gwybodaeth yn effeithiol. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio medrau darllen lefel uwch yn hyderus, fel llithrddarllen a bwrw golwg, i leoli gwybodaeth benodol mewn llyfrau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud gymaint o gynnydd mewn darllen ag y dylent ei wneud.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu cynnwys ac ansawdd eu hysgrifennu. Cynhyrchant waith wedi'i gyflwyno'n dda sy'n fywiog a diddorol, pan fydd disgyblion Blwyddyn 6, er enghraifft, yn cyfansoddi llythyrau oddi wrth faciwî yn yr Ail Ryfel Byd. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o atalnodi ac yn gwella cywirdeb eu sillafu yn gyson. Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau cyfathrebu i gefnogi'u gwaith mewn llawer o agweddau ar ddysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn lluosi'n gywir gan ddefnyddio rhifau degol. Mae disgyblion yn datblygu'u medrau mesur yn dda, ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu'u gallu i wneud gwaith ymchwiliol. Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau yn dda i gefnogi'u gwaith mewn agweddau eraill ar ddysgu pan fydd disgyblion Blwyddyn 4, er enghraifft, yn defnyddio'u dealltwriaeth ddatblygol o rifau negatif i gymharu tymheredd yn Norwy â'r tymheredd yn Wrecsam.

Mewn Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn dysgu ystod briodol o batrymau brawddegau sylfaenol a geirfa berthnasol. Defnyddiant rai cystrawennau cwestiynau yn gywir ac maent yn ofalus gyda'u hynganu. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r patrymau a ddysgwyd yn ddigon hyderus mewn gwersi Cymraeg nac ym mywyd bod dydd yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen llyfr stori syml yn rhesymol o hyderus. Dilynant batrymau sefydledig wrth ysgrifennu brawddegau syml am eu hoff wersi a gweithgareddau hamdden, ond mae hyd y darnau a ysgrifennant yn gyfyngedig at ei gilydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn mewn asesiadau ar ddiwedd y cyfnod allweddol yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae camau a gymerwyd gan yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod bechgyn a merched yn cyflawni gystal â'i gilydd. Mae disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu a'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion sy'n mynychu'r uned i ddisgyblion â nam ar eu clyw yn gwneud cynnydd da o leiaf o'i gymharu â'u gallu.

O 2011 i 2013, roedd perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig yn gyson uchel, ac ar y lefel 5 uwch na'r disgwyl fe wnaeth canlyniadau godi ym mhob pwnc. Yn 2014, roedd perfformiad ym mhob pwnc ar lefel 4 a lefel 5 yn is na'r flwyddyn flaenorol. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd canlyniadau ar lefel 4 a lefel 5 yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch ar gyfer pob pwnc o 2011 i 2013, ond fe wnaethant ostwng mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 4 i'r 50% is y llynedd. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r bwlch mewn perfformiad ar lefel 4 rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill wedi cau. Fodd bynnag, ar lefel 5, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni gystal â disgyblion eraill.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'r angen i gynnal diet iach ac i wneud ymarfer corff rheolaidd. Datblygant ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ac maent yn gwybod pwy i fynd atynt os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Yn ystod gwersi, mae bron yr holl ddisgyblion yn llawn cymhelliant, yn canolbwyntio'n dda ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu. Mae disgyblion yn gweithio'n dda â'i gilydd ac yn parchu barnau ei gilydd. Mae eu hymddygiad mewn gwersi a thu allan i wersi yn dda, ac yn rhagorol ar adegau. Mae dealltwriaeth glir iawn gan ddisgyblion o'r hyn y mae angen iddynt wneud er mwyn gwneud cynnydd. Mae presenoldeb wedi aros uwchlaw 95% am y tair blynedd diwethaf, ac mae wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron yr holl ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae cyngor ysgol effeithiol gan yr ysgol ac mae'n ymwneud yn weithredol ag ystod eang o brosiectau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgymryd â rolau penodol o fewn y cyngor ac yn ysgwyddo cyfrifoldeb am nifer o fentrau. Mae llawer o ddisgyblion wedi datblygu'u medrau entrepreneuraidd a'u medrau bywyd yn effeithiol drwy fod yn rhan o brosiect Comenius lle maent yn ymchwilio, yn cynhyrchu ac yn marchnata eitemau i'w gwerthu mewn gwledydd Ewropeaidd.

Mae pob un o'r disgyblion Blwyddyn 6 yn ymgymryd â rolau cyfrifoldeb yn yr ysgol, gan gynnwys cymorth yn ystod gwasanaethau boreol ac amser egwyl. Maent yn frwdfrydig ynglŷn â'u rolau yn yr ysgol, ac yn cyflawni'r dyletswyddau hyn gydag aeddfedrwydd. Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'r gymuned leol, er enghraifft drwy weithio gydag archfarchnad leol i gael rhosod i'w gwerthu ar ddiwrnod Sant Ffolant a thrwy godi arian ar gyfer elusennau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Ceir trefniadau effeithiol sydd wedi'u sefydlu'n dda i ddisgyblion weithio mewn grwpiau gallu yn ystod eu sesiynau llythrennedd a rhifedd. Mae staff yn trefnu ystod dda o ymweliadau ac ymwelwyr er mwyn gwella'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o glybiau allgyrsiol sy'n cynnwys pêl-droed, criced a gweithgareddau crefft. Mae'r rhain yn cyfoethogi cyfleoedd dysgu disgyblion yn dda.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn drwyadl ac yn sicrhau bod cyfleoedd da i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Rhoddir ystyriaeth dda i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol gan athrawon.

Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau Cymraeg yn ofalus, a darparant brofiadau dysgu diddorol i ddisgyblion mewn gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ymarfer patrymau brawddegau yn drwyadl yn y dosbarth ac ym mywyd bob dydd yr ysgol, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu hyder o ran eu defnyddio'n annibynnol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion i weithio gydag artistiaid lleol, i ganu ystod o gerddoriaeth gan gerddorion Cymreig modern ac i ymweld â mannau lleol o ddiddordeb yn hyrwyddo'u dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn dda.

Darpara'r ysgol gyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu'u gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae aelodau'r pwyllgor eco yn gweithio'n frwdfrydig i sicrhau bod yr ysgol yn ecogyfeillgar. Mae cyfranogi ym Mhrosiect Comenius a oedd yn cynnwys ymweliad â Sbaen gan rai aelodau o'r clwb busnes, a chysylltiadau â gwledydd fel Sbaen a Siapan, yn cyfoethogi gwybodaeth disgyblion am y byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth bynciol gyfoes a defnyddiant ystod addas o ddulliau addysgu yn effeithiol. Gweithredant y dulliau a gytunwyd o fewn yr ysgol yn gyson, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion. Mae pob un o'r athrawon yn sicrhau bod rhediad bywiog i wersi a darparant dasgau sy'n ennyn diddordeb llawn disgyblion. Defnyddiant dechneg holi fedrus sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion yn dda. Ym mhob un o'r dosbarthiadau, mae perthnasoedd gweithio da gan yr athrawon â disgyblion, ac maent yn sicrhau safonau ymddygiad uchel. Ar ddechrau gwersi, mae pob un o'r athrawon yn rhannu bwriad y wers a'r meini prawf llwyddo gyda disgyblion fel eu bod yn deall yn iawn beth sy'n rhaid iddynt ei wneud i lwyddo. Mae'r addysgu yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol ac mae disgwyliadau uchel o ddisgyblion gan bob un o'r athrawon. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o athrawon yn hyrwyddo'r Gymraeg digon mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o asesiadau ac yn olrhain cynnydd disgyblion yn drwyadl. Bydd staff yn defnyddio'r system olrhain i osod targedau heriol ar gyfer gwella ac i sicrhau eu bod yn nodi unrhyw dangyflawniad yn gynnar. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd wrth asesu eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud cynnydd. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ond nid yw sylwadau yn rhoi digon o arweiniad bob tro ar sut gall disgyblion wella.

Mae adroddiadau blynyddol yn darparu gwybodaeth fanwl i rieni am y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Ceir trefniadau da i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o weithgareddau ar ôl ysgol i annog ffitrwydd, fel pêl-droed a phêl-rwyd. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb da, fel y system wobrwyo.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â nifer o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion unigol. Mae staff yn darparu mynediad gwerthfawr i rieni at ystod eang o asiantaethau cymorth allanol. Mae'r rhaglen cymorth myfyrwyr yn cynorthwyo disgyblion ag anawsterau emosiynol penodol yn llwyddiannus. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae staff yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni am gynnydd eu plentyn. Mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da gan yr holl ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'r rhain yn pennu targedau priodol i gynorthwyo'u cynnydd. Mae staff yn darparu cymorth ychwanegol cadarn ar gyfer y disgyblion hyn mewn grwpiau bach. Mae staff yn yr uned ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw yn darparu addysgu arbenigol o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion amrywiol y disgyblion yn effeithiol iawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a hapus. Mae disgyblion yn datblygu goddefgarwch a pharch at ei gilydd, ac maent yn gwrtais yn eu hymddygiad tuag at ymwelwyr. Ceir polisïau a gweithdrefnau effeithiol yn yr ysgol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Cynigir cyfle cyfartal i bob disgybl; er enghraifft, mae merched yn rhan o dîm pêl-droed a rygbi'r ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfrifoldeb ac ymdrech unigol yn dda drwy ei chyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Mae staff o'r uned ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion sy'n mynychu'r uned i weithio mewn dosbarthiadau prif ffrwd pa bryd bynnag y bo'n briodol.

Mae adeilad yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol i ddisgyblion ac mae'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae arddangosfeydd ar draws yr ysgol yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda ac yn darparu ffocws da ar gyfer

dysgu. Mae'r amgylchedd awyr agored helaeth yn ddiddorol i ddisgyblion, ac yn cynnwys wal ddringo, adeiledd chwarae pren, byrddau picnic, ardal tyfu llysiau a gardd bywyd gwyllt. Mae ychwanegu'r ardal awyr agored at ddefnydd disgyblion Blwyddyn 3 yn cynnig buddion pontio rhagorol i ddisgyblion o'r ysgol babanod. Gwna staff ddefnydd da o'r ystod eang o adnoddau i wella profiadau dysgu disgyblion, gan gynnwys y llyfrgell sy'n cynnwys stoc dda a'r offer TGCh diweddar.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth gadarn gan y pennaeth ar gyfer arwain ysgol lle mae pob disgybl yn bwysig, ac sy'n canolbwyntio'n glir ar les a chyflawniad disgyblion. Mae'n cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i staff, disgyblion a llywodraethwyr. Mae ei arweinyddiaeth bwrpasol wedi sefydlu ethos sy'n annog pob disgybl i gyrraedd ei botensial llawn.

Mae uwch arweinwyr a phob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda, a gweithiant yn effeithiol â'i gilydd fel tîm. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd a system rheoli perfformiad drylwyr wedi cyfrannu'n dda at welliannau yn yr addysgu a'r dysgu. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion. Cymera pob un o'r athrawon ran weithredol yn y broses rheoli perfformiad, sy'n nodi ac yn mynd i'r afael yn llwyddiannus â'u hanghenion hyfforddi. Nid yw staff cymorth, fodd bynnag, yn elwa ar gylch rheoli perfformiad tebyg.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn dadansoddi ac yn cwestiynu data perfformiad yn drwyadl, ac yn gwella'u gwybodaeth am addysgu a dysgu drwy gysylltu ag arweinwyr pwnc a thrwy fynd ar 'droeon dysgu'. Maent yn herio'r ysgol yn effeithiol mewn meysydd lle mae angen iddi wella.

Mae'r ysgol yn talu sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae athrawon wedi defnyddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus i wella'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau. Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau iaith Gymraeg yn dal i fod yn faes i'w wella ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae dealltwriaeth dda gan yr ysgol o'i chryfderau a'r meysydd y mae angen iddi eu gwella. Mae'r broses hunanarfarnu yn cynnwys gweithdrefnau effeithiol ar gyfer arsylwi gwersi, cynllunio monitro ac edrych ar waith disgyblion. Gwna bob un o'r staff addysgu gyfraniad gwerthfawr at y broses monitro. Defnyddiant ddata perfformiad yn drwyadl er mwyn monitro cyrhaeddiad disgyblion a chynllunio ar gyfer gwella safonau. Mae'r pennaeth yn gofyn am farnau rhieni yn rheolaidd drwy holiaduron, ac mae disgyblion yn mynegi eu barnau'n llwyddiannus trwy gyngor yr ysgol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy'n rhoi darlun cytbwys o'r ysgol.

Ceir cysylltiad clir rhwng y meysydd i'w datblygu a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae cynllun gwella'r

ysgol yn cynnwys nifer realistig o flaenoriaethau perthnasol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella ansawdd darpariaeth. Mae'r targedau'n nodi graddfeydd amser, cyfrifoldebau a chostau priodol. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddo yn y cynlluniau yn ddigon penodol i alluogi arweinwyr i fonitro cynnydd gystal ag y gallent.

Mae cynllunio'r ysgol ar gyfer gwella yn effeithiol ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi llwyddo i godi safonau ysgrifennu a helpu bechgyn i gyflawni gystal â merched.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gadarn â rhieni. Mae polisi 'drws agored', ynghyd â 'sesiynau galw heibio' misol i rieni, yn sicrhau bod staff a rhieni yn gweithio'n agos â'i gilydd i gynorthwyo dysgu a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni trwy gylchlythyrau rheolaidd a gwefan sy'n llawn gwybodaeth.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda ag ystod o bartneriaid i gynllunio a rheoli ei darpariaeth. Mae athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd â staff o ysgolion cyfagos, a gweithiant gyda'i gilydd i sicrhau bod gwaith disgyblion yn cael ei asesu'n gywir. O ganlyniad, mae asesiadau athrawon yn gadarn a dibynadwy. Ceir cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol fabanod sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym ym Mlwyddyn 3. Mae trefniadau pontio da gydag ystod o ysgolion uwchradd yn helpu disgyblion i symud yn hyderus i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol i gefnogi dysgu a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn arbennig o effeithiol o ran cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae cysylltiadau'r ysgol â'r gymuned yn gadarn ac amrywiol, ac maent yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Maent yn cynnwys gweithio gydag eglwysi a busnesau lleol, yn ogystal ag asiantaethau fel yr heddlu. Mae cysylltiadau ag ysgol yn yr un teulu wedi arwain at wella addysgu ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli'i hadnoddau yn fedrus. Mae'n defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn bwrpasol i wneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth a'u medrau. Mae staff yn mynychu ystod dda o gyrsiau hyfforddi mewn cysylltiad agos â blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd mynych i staff rannu arfer dda ar draws yr ysgol, ac mae hyn yn sicrhau bod cysondeb yn y defnydd o strategaethau addysgu. Gwna staff cymorth gyfraniad gwerthfawr at ddysgu a chynnydd disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r cyllid y mae'n ei dderbyn ac mae'n monitro gwariant yn fanwl. Mae arweinwyr yr ysgol yn rheoli'r defnydd o adnoddau ariannol yn dda i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygu. Cynlluniant i ddefnyddio'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn effeithiol i sicrhau gwelliant yn narpariaeth yr ysgol a chyflawniad disgyblion. Maent yn defnyddio'r Grant Amddifadedd disgyblion yn

bwrpasol i sicrhau yr effeithir yn uniongyrchol ar ddeilliannau disgyblion perthnasol. Mae arweinwyr yn defnyddio’r grant i ddarparu amser ychwanegol i staff weithio’n agos â disgyblion sy’n agored i niwed a’u teuluoedd.

Gan ystyried y safonau da y mae disgyblion yn eu cyflawni ac ansawdd cyson y ddarpariaeth, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6652205 - Ysgol Iau Parc Borras**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 230 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 64 | 61 | 52 | 55 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 93.8 | 93.4 | 94.2 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 64 | 61 | 52 | 55 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.3 | 95.1 | 98.1 | 94.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 39.1 | 42.6 | 51.9 | 43.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 64 | 61 | 52 | 55 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.3 | 98.4 | 96.2 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 46.9 | 50.8 | 57.7 | 52.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 64 | 61 | 52 | 55 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.3 | 98.4 | 100.0 | 94.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.4 | 37.7 | 46.2 | 43.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur cynradd (cyffredinol)

mae'n dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 101 | 100<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 99 | 95<br>96% | 4<br>4% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 101 | 101<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 97 | 92<br>95% | 5<br>5% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 100 | 94<br>94% | 6<br>6% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 98 | 96<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 101 | 99<br>98% | 2<br>2% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 101 | 99<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 98 | 95<br>97% | 3<br>3% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 97 | 93<br>96% | 4<br>4% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 94 | 79<br>84% | 15<br>16% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 98 | 88<br>90% | 10<br>10% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 138 | 81<br>59% | 55<br>40% | 2<br>1% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 137 | 94<br>69% | 42<br>31% | 0<br>0% | 1<br>1% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 137 | 84<br>61% | 47<br>34% | 1<br>1% | 1<br>1% | 4 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 138 | 71<br>51% | 57<br>41% | 6<br>4% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 138 | 59<br>43% | 64<br>46% | 3<br>2% | 1<br>1% | 11 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 137 | 67<br>49% | 60<br>44% | 2<br>1% | 0<br>0% | 8 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 134 | 88<br>66% | 44<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 133 | 61<br>46% | 69<br>52% | 1<br>1% | 0<br>0% | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 137 | 59<br>43% | 59<br>43% | 5<br>4% | 1<br>1% | 13 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 138 | 55<br>40% | 67<br>49% | 5<br>4% | 2<br>1% | 9 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 138 | 86<br>62% | 51<br>37% | 1<br>1% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 128 | 57<br>45% | 47<br>37% | 12<br>9% | 0<br>0% | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 138 | 51<br>37% | 66<br>48% | 15<br>11% | 4<br>3% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 137 | 73<br>53% | 52<br>38% | 11<br>8% | 1<br>1% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 137 | 49<br>36% | 74<br>54% | 6<br>4% | 0<br>0% | 8 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 135 | 73<br>54% | 54<br>40% | 1<br>1% | 1<br>1% | 6 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 136 | 53<br>39% | 52<br>38% | 8<br>6% | 0<br>0% | 23 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 138 | 87<br>63% | 48<br>35% | 2<br>1% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 138 | 81<br>59% | 49<br>36% | 0<br>0% | 2<br>1% | 6 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jane Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Melanie Sturt | Arolygydd Cymheiriaid |
| Brendan McDonald | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.